EX107GN

Nodiadau Cyfarwyddyd – Cais i Drawsgrifio achos Llys neu Dribiwnlys

Os ydych eisiau trawsgrifiad o achos mewn unrhyw lys neu dribiwnlys (heblaw Adran Droseddol y Llys Apêl neu'r Llys Gweinyddol*), dylech lenwi ffurflen EX107. Os ydych eisiau archebu trawsgrifiad o fwy nag un achos, dylech lenwi ffurflen EX107 arall am bob achos gwahanol yr ydych eisiau ei drawsgrifio.

Cofiwch nad yw pob Tribiwnlys yn recordio achosion felly efallai na fydd gwasanaeth trawsgrifio ar gael. Dylech holi'r tribiwnlys perthnasol cyn llenwi'r ffurflen hon.

Gallwch anfon ffurflen EX107 yn ddigidol neu drwy'r post i'r llys neu'r tribiwnlys. Mae manylion contract y lleoliad perthnasol i'w cael drwy Court Finder yn https://courttribunalfinder.service.gov.uk/search/

Ar gyfer awdurdodaethau Sifil a Theulu lle'r ydych yn dewis cwmni trawsgrifio, ein cyngor yw eich bod yn cael gair â'r cwmni trawsgrifio cyn i chi lenwi ffurflen EX107. Os yw'r cwmni trawsgrifio a ddewiswch yn gofyn am ffurflen EX107, lle bo hynny'n bosib dylech ei hanfon yn ddigidol drwy ddefnyddio'r cyfeiriadau e-bost yn Adran 2a. Gallwch ei hanfon drwy'r post os nad oes gennych gyfeiriad e-bost.

Weithiau gallai'r trawsgrifiad y byddwch yn gofyn amdano ar y ffurflen EX107 eisoes fod wedi cael ei gynhyrchu ar gyfer HMCTS. Gallai fod adegau hefyd pan fydd Cwmni Trawsgrifio swyddogol y llys wedi darparu stenograffydd neu gofnodydd llys i recordio neu gofnodi'r achos. Yn yr amgylchiadau hyn, Cwmni Trawsgrifio swyddogol y llys fydd yn darparu'r trawsgrifiad a bydd y llys yn dweud wrthych gyda phwy i gysylltu.

Lle mae angen trawsgrifiad o achos Llys a gynhaliwyd yn breifat (ex-parte), bydd angen caniatâd gan Farnwr. Bydd pob trawsgrifiad o achos preifat yn cael ei gynhyrchu gan gwmni trawsgrifio swyddogol y Gwasanaeth Achosion Sensitif, OPUS2. Oherwydd natur sensitif yr achosion hyn, bydd y trawsgrifio'n digwydd yn yr Uned Trawsgrifio Diogel drwy wasanaeth seiliedig ar fynychu. Cynghorir chi i drafod hyn gyda'r llys perthnasol cyn llenwi ffurflen EX107.

*Os ydych eisiau trawsgrifiad o ddyfarniad gan Adran Siawnsri'r Llys Apêl neu'r Llys Gweinyddol (h.y. rhesymau'r barnwr dros y penderfyniad), dylech lenwi ffurflen EX107 a'i hanfon drwy e-bost neu'r post i'r trawsgrifwyr swyddogol.

Os ydych eisiau trawsgrifiad o unrhyw ran arall o'r achos, dylech lenwi ffurflen EX107 a'i hanfon drwy e-bost neu'r post i'r Llys. Gweler Adran 2d am fanylion cyswllt y cwmnïau cyflenwi swyddogol sy'n trawsgrifio achosion yn Adran Droseddol y Llys Apêl neu'r Llys Gweinyddol.

Cofiwch, os yw'r trawsgrifiad sydd ei angen arnoch yn un o wrandawiad yn Adran Droseddol y Llys Apêl a fu'n eistedd mewn Llys y Goron rhanbarthol, ar gylchdaith neu mewn Llys Gweinyddol yn y rhanbarthau, gallwch ddewis unrhyw un o'r chwe chyflenwr i wneud y gwaith ac ni chyfyngir chi i ddefnyddio cyflenwyr trawsgrifio swyddogol Adran Droseddol y Llys Apêl a'r Llys Gweinyddol.

Tabl A

Math o drawsgrifiad	Disgrifiad a sylwadau	Awdurdodaeth
Gwrandawiad cyfan	Trawsgrifiad o'r gwrandawiad cyfan o'r dechrau i'r diwedd Ar gyfer gwrandawiad yn para diwrnod neu lai, rhowch yr amseroedd dechrau a gorffen. Ar gyfer gwrandawiad yn para mwy na diwrnod, rhowch y gwahanol ddyddiadau a lle bo hynny'n bosib, yr amseroedd dechrau a gorffen ar gyfer pob diwrnod. Cofiwch os ydych yn gofyn am drawsgrifiad o achos troseddol, y bydd yn cynnwys araith agoriadol yr Erlyniad i fyny at ac yn cynnwys y dyfarniad.	Troseddol
Araith ffeithiau agoriadol yr Erlyniad	Crynodeb yr Erlyniad o ffeithiau'r achos lle mae'r diffynnydd yn pledio'n euog	Troseddol
Lliniaru	Trawsgrifiad o araith bargyfreithiwr yr amddiffyniad i'r barnwr yn cyflwyno'r ffactorau ar ran y diffynnydd am y math o ddedfryd y dylid ei rhoi.	Troseddol
Araith grynhoi'r Barnwr	Cyfarwyddiadau'r Barnwr ar y gyfraith a chrynodeb y dystiolaeth yn ystod yr achos i helpu'r rheithgor i wneud eu penderfyniad.	Troseddol
Sylwadau dedfrydu	Penderfyniad y barnwr ar y ddedfryd a'r rhesymau dros y ddedfryd.	Troseddol
Hanes blaenorol	Cefndir a throseddau blaenorol y diffynnydd.	Troseddol
Achos yn dilyn y dyfarniad	Trawsgrifiad o'r achos a'r drafodaeth ar ôl i'r rheithgor roi eu dyfarniad.	Troseddol
Tystiolaeth	Rhowch enw'r tyst a, lle bo hynny'n berthnasol, dywedwch a ydych eisiau'r holl dystiolaeth neu dim ond y brif dystiolaeth / croesholiad / ailholiad.	Pob un
Sylwadau agoriadol / cloi'r bargyfreithwyr	Rhowch enw'r bargyfreithiwr perthnasol (neu eu rôl, e.e. Erlyniad) ac a ydych eisiau'r araith / areithiau agoriadol neu gloi.	Pob un
Dyfarniad	Penderfyniad a rhesymau ffurfiol y barnwr ar ddiwedd achos mewn Llys Sifil neu Deulu (neu yn Adran Droseddol y Llys Apêl).	Sifil, Teulu, CACD, Tribiwnlys
Dadleuon Cyfreithiol a Dyfarniad	Y cyflwyniadau (dadleuon) a wneir i'r Barnwr / Meistr gan barti neu gynrychiolydd cyfreithiol ar fater penodol yn ystod yr achos a thrawsgrifiad o'r penderfyniad (dyfarniad) gan y Barnwr / Meistr. Nodwch a ydych eisiau'r dadleuon yn unig neu'r dyfarniad yn unig.	Pob un
Dyfarniad Atafaelu	Trawsgrifiad o Ddyfarniad y Barnwr mewn gwrandawiad Atafaelu.	
Arall – rhowch fanylion	Ar gyfer unrhyw gais trawsgrifiad arall, disgrifiwch union natur yr achos yr ydych yn gwneud cais amdano. Dylech gynnwys amseroedd dechrau a gorffen y rhan berthnasol o'r achos.	Pob un

Tabl B

B1 – Cwmnïau Trawsgrifio sydd wedi eu hawdurdodi i drawsgrifio achosion Llys y Goron yn y Rhanbarthau

Band Lefel Gwasanaeth	Disgrifiad o'r Gwasanaeth	Ubiqus	DTI	Auscript	Marten Walsh Cherer	The Transcription Agency	Opus 2
Band 1	Dros nos (24 awr)	Yr holl brisiau drwy wneud cais i'r cwmnïau trawsgrifio unigol					
Band 2	48 awr						
Band 3	3 diwrnod gwaith						
Band 4	7 diwrnod gwaith						
Band 5	12 diwrnod gwaith						
Band 6	Cyfradd gopi						

B2 – Cwmnïau Trawsgrifio sydd wedi eu hawdurdodi i drawsgrifio achosion mewn llysoedd heblaw Llys y Goron

Cost fesul ffolio yw'r pris a ddangosir. Mae ffolio'n cynnwys 72 gair. Cyfanswm cost y trawsgrifiad fydd nifer y ffolios wedi'i luosi gyda'r pris a ddangosir.

Band Lefel Gwasanaeth	Disgrifiad o'r Gwasanaeth	Ubiqus	DTI	Auscript	Marten Walsh Cherer	The Transcription Agency	Opus 2
Band 2	48 awr	£1.24	£1.21	£1.22	£1.33	£1.78	£2.20
Band 5	12 diwrnod gwaith	£0.70	£0.98	£0.95	£1.11	£1.34	£1.60
Band 6	Cyfradd gopi	£0.00	£0.30	£0.10	£0.30	£0.40	£0.40

Gellir defnyddio unrhyw un o'r chwe chwmni trawsgrifio yn Nhabl B2 uchod i gynhyrchu trawsgrifiadau o achosion Sifil, Teulu neu Dribiwnlys. Mae Tabl B2 uchod yn dangos yr uchafswm cost a godir gan bob un o'r chwe chwmni ar gyfer y ddwy lefel wasanaeth safonol sydd ar gael. Os oes angen trawsgrifiad ar lefel wasanaeth arall arnoch, dylech gysylltu â'r Cwmni Trawsgrifio i gytuno ar bris.

Codir y prisiau uchod lle darperir y trawsgrifiad o fewn yr amserlen (lefel wasanaeth) y gofynnwyd amdani. Os yw'n cymryd hirach i Gwmni Trawsgrifio ddarparu'r trawsgrifiad (h.y. lle darperir lefel wasanaeth is), y pris i'w dalu fydd y pris sy'n berthnasol i'r lefel wasanaeth is.

ADRAN 2 – Gwybodaeth ychwanegol i rai sy'n archebu trawsgrifiad

2a) Manylion cyswllt ar gyfer Cwmnïau Trawsgrifio swyddogol

Enw	Cyfeiriad	Ffôn / E-bost
Ubiqus UK Ltd	61 Southwark Street Llundain SE1 0HL DX 149165 Southwark 9	**T** 020 7759 2695 **F** 020 7405 9884 **E** legal@ubiqus.com **W** https://www.ubiqus.co.uk/
DTI	165 Fleet Street Llundain EC4A 2DY DX 414 LDE	**T** 020 7421 4036 **E** courttranscripts@dtiglobal.eu **W** https://www.dtiglobal.com/
Auscript Ltd	Llys Canolog Suite 303 25 Southampton Buildings Llundain WC2A 1AL	**T** 03301 005223 **F** 03301 005213 **E** uk.clientservices@auscript.com **W** https://www.auscript.com/
Marten Walsh Cherer Ltd	1st Floor, Quality House 6–9 Quality Court Chancery Lane Llundain WC2A 1HP DX 410 LDE	**T** 020 7067 2900 **F** 020 7831 6864 **E** crown@martenwalshcherer.com (ar gyfer Llys y Goron) **E** civil@martenwalshcherer.com (ar gyfer Sifil, Teulu a Thribiwnlys) **W** https://www.martenwalshcherer.com/
The Transcription Agency	24–28 High Street Hythe Caint CT21 5AT	**T** 01303 230038 (public) **E** court@thetranscriptionagency.com **W** https://www.thetranscriptionagency.com/
Opus 2 International Ltd	5th Floor 5 New Street Square Llundain EC4A 3BF	**Helpdesk** 020 7831 5627 **T** 020 7831 5627 **E** criminal@opus2.digital (ar gyfer archebion Llys y Goron) **E** civil@opus2.digital (ar gyfer pob archeb arall) **W** http://www.opus2.com/

2b) Tracio cynnydd eich archeb

1. Rhaid i Gwmnïau Trawsgrifio swyddogol roi gwybodaeth dracio am statws diweddaraf eich archeb trawsgrifiad. Mae manylion y system dracio ar gael ar wefan y Cwmni Trawsgrifio perthnasol neu drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y tabl blaenorol.
2. Cofiwch, ac eithrio ar gyfer recordiadau sain mewn llys agored yn Llys y Goron, y bydd 'amser arwain' cyfartalog o 10 diwrnod gwaith er mwyn rhoi amser i staff y Llys ddod o hyd i'r recordiad sain a'i anfon i'r cwmni trawsgrifio. Bydd llysoedd yn gwneud eu gorau, lle bo hynny'n bosib, i ymateb i geisiadau brys.
3. Bydd angen i unrhyw gais am drawsgrifiad o Ddyfarniad gael ei gymeradwyo gan y Barnwr, felly bydd angen mwy o amser cyn y gellir rhyddhau'r trawsgrifiad.

2c) Dyfarniadau Adran Sifil y Llys Apêl

Fel arfer mae Dyfarniadau Apêl ar gael yn ddi-dâl ar-lein yn www.bailii.org.uk

2d) Manylion cyswllt ar gyfer trawsgrifiadau achosion yn Adran Droseddol y Llys Apêl a'r Llys Gweinyddol

Enw	Cwmni Trawsgrifio swyddogol ar gyfer dyfarniadau Llys	Manylion cyswllt y Llys – ar gyfer trawsgrifio achosion heblaw Dyfarniadau
Adran Droseddol y Llys Apêl	**DTI**	**Swyddfa Apeliadau Troseddol**
	165 Fleet Street Llundain EC4A 2DY DX 414 LDE **T** 020 7421 4036 **E** courttranscripts@dtiglobal.eu	Y Llysoedd Cyfiawnder Brenhinol Strand Llundain WC2A 2LL **T** 020 7947 6011 **E** criminalappealoffice.generaloffice@hmcts.x.gsi.gov.uk
Y Llys Gweinyddol	**Opus 2 International Ltd**	**Swyddfa'r Llys Gweinyddol**
	5th Floor 5 New Street Square Llundain EC4A 3BF **T** 020 7831 5627 **E** civil@opus2.digital	Y Llysoedd Cyfiawnder Brenhinol Strand Llundain WC2A 2LL **T** 020 7947 6655 **E** administrativecourtoffice.generaloffice@hmcts.x.gsi.gov.uk

2e) Cwynion am Gwmnïau Trawsgrifio

Mae gan bob cyflenwr ar y rhestr uchod o Gwmnïau Trawsgrifio swyddogol gontract gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. O dan delerau'r contract, rhaid i ddarparwyr drefnu bod ganddynt weithdrefn gwynion drylwyr yn ei lle.

- Os dymunwch wneud cwyn am wasanaeth trawsgrifio, gan gynnwys y pris, y bilio, ansawdd y trawsgrifiad neu unrhyw fater technegol arall, dylid cyfeirio'r gŵyn i ddechrau at y Cwmni Trawsgrifio perthnasol.
- Os dymunwch wneud cwyn am ymateb neu ymddygiad y Cwmni Trawsgrifio, mae mwy o fanylion ar gael yn GOV.UK.

Atodiad A – rhestr o Lysoedd y Goron ac i ba ranbarth y maen nhw'n perthyn

Llundain	Canolbarth Lloegr	Cymru a De Orllewin Lloegr	Gogledd Orllewin Lloegr	De Ddwyrain Lloegr	Gogledd Ddwyrain Lloegr
Ubiqus	**DTI**	**The Transcription Agency**	**Marten Walsh Cherer**	**Auscript**	**Opus2**
Llys y Goron Blackfriars	Llys y Goron Birmingham	Llys y Goron Bournemouth	Llys Cyfun Bolton – Llys y Goron	Llys Barn Amersham – Llys y Goron (is-lys i Lys y Goron Aylesbury)	Llys Cyfun Bradford – Llys y Goron
Llys Troseddol Canolog	Llys Cyfun Coventry – Llys y Goron	Llys y Goron Bryste	Llys Cyfun Burnley – Llys y Goron	Llys y Goron Aylesbury	Llys y Goron Doncaster
Llys y Goron Croydon	Canolfan Lys Gyfun Derby - Llys y Goron	Llys y Goron Exeter	Llys Cyfun Caerliwelydd – Llys y Goron	Llys Cyfun Basildon – Llys y Goron	Llys y Goron Durham
Llys y Goron Harrow	Llys y Goron Henffordd	Llys y Goron Caerloyw	Llys y Goron Caer	Llys y Goron Bury St. Edmunds	Llys y Goron Great Grimsby
Llys y Goron Llundain Fewnol	Llys y Goron Caerlŷr	Llys Cyfun Ynys Wyth	Llys y Goron Caerhirfryn	Llys y Goron Caergrawnt	Llys y Goron Kingston-upon-Hull
Llys y Goron Islesworth	Llys y Goron Lincoln	Llys Cyfun Plymouth – Llys y Goron	Llys y Goron Lerpwl	Llys Cyfun Caergaint - Llys y Goron	Llys Cyfun Newcastle – Llys y Goron
Llys y Goron Kingston Upon Thames	Llys Cyfun Northampton – Llys y Goron	Llys Cyfun Portsmouth – Llys y Goron	Llys y Goron Manceinion (Crown Square)	Llys y Goron Chelmsford	Llys y Goron Leeds
Llys y Goron Snaresbrook	Llys y Goron Nottingham	Llys Barn Salisbury – Llys y Goron	Llys y Goron Manceinion (Minshull)	Llys Cyfun Chichester – Llys y Goron	Llys y Goron Sheffield
Llys y Goron Southwark	Llys y Goron Amwythig	Llys y Goron Southampton	Llys y Goron Preston (Sessions House)	Llys y Goron Guildford	Llys Cyfun Teesside – Llys y Goron
Llys y Goron Wood Green	Llys Cyfun Stafford – Llys y Goron	Llys Cyfun Swindon – Llys y Goron	Llys y Goron Warrington	Llys y Goron Ipswich	Llys y Goron Efrog
Llys y Goron Woolwich	Llys Cyfun Stoke on Trent – Llys y Goron	Llys Cyfun Taunton – Llys y Goron	Barrow-in-Furness (is-lys ar gyfer Llys y Goron Caerliwelydd)	Llys y Goron Kings Lynn (is-lys ar gyfer Llys y Goron Norwich)	
	Llys Cyfun Warwick – Llys y Goron	Llys Cyfun Truro – Llys y Goron		Llys Cyfun Lewes – Llys y Goron	
	Llys Cyfun Wolverhampton – Llys y Goron	Llys Cyfun Caer-wynt – Llys y Goron		Llys y Goron Luton	
	Llys y Goron Caerwrangon			Llys Cyfun Maidstone – Llys y Goron	
		Llys Cyfun / Llys y Goron Caernarfon		Llys Cyfun Norwich – Llys y Goron	
		Llys y Goron Caerdydd		Canolfan Llys Cyfun Rhydychen – Llys y Goron	

Llundain	Canolbarth Lloegr	Cymru a De Orllewin Lloegr	Gogledd Orllewin Lloegr	De Ddwyrain Lloegr	Gogledd Ddwyrain Lloegr
Ubiqus	**DTI**	**The Transcription Agency**	**Marten Walsh Cherer**	**Auscript**	**Opus2**
		Llys Cyfun Merthyr Tudful – Llys y Goron		Llys Cyfun Peterborough – Llys y Goron	
		Llys y Goron Yr Wyddgrug		Llys y Goron Reading	
		Llys y Goron Casnewydd (De Cymru		Llys y Goron Southend	
		Llys y Goron Abertawe		Llys y Goron St Albans	